

Y

Rhydgn wych



Bont

CDat 2004

Y dapfen newyddion i CARROG a LLIDIART y PARC

Wel dyma ni gyda rhifyn wyth ac yn symud yn agosach at Mis Mai. Y Mis a fydd yn dangos frwyth ein gwaith ar gyfer efeillio a Plouyé. Mae erthygl yn amlinellu trefniadau ar gyfer y penwythnos yn y rhifynhwn. Penwythnos I'r holl bentref yw hwn a gobeithiwn y bydd llawer ohonoch yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Mae efeillio gyda cymunedc arall yn weithred anffurfiol, ond gyda llawer o fanteision yn cynnwys dysgu sut mae cymunedau tebyg yn byw. Mae'n anarferol I gymuned mor fach a ni ymgymryd ag efeillio ond mae Ploiye wedi gofyn I ni wneud hyn o ganlyniad I'r lletygarwch y meant wedi ei dderbyn yma dros y blynyddoedd. Gobeithio y gallwch adeiladu ar yr ymweliad yma a threfnu ymweliad I Lydaw yn y dyfodol agos lle bydd croeso I bawb.

Bu I'n Ffwl Ebrill weithio yn rhy dda ! I ddechrau fe dwyllodd un o'n tim golygyddol ac yna nifer o'r gymuned. Teimlwn y dylem ymddiheuro am achosi pryder . Roedd ambell un yn poeni ddigon I fod eisiau cychwyn protest, ond yn barod I chwerrthin ar ol deall mai Ffwl Ebrill oedd y cyfan. Dylem hefyd son am Staff y One stop Shop a fu'n brysur yn dilyn ymholiadau. Diolch am hynny, ond gwyliwch Mis Ebrill nesaf! Mae'r siop a'r bont yn parhau I achosi pryder yn y pentref. Mae gennym lythyr yhglyn a'r siop, ac mae llawer yn poeni am y bont gan ei fod yn debygol y bydd yn rhaid i Garrog a Llidiart y Parc gael eu gwahanu am yr ail waith mewn ugain mlynedd – a ninnau wedi adeiladu pont gyda Llydaw!

Mae'r heddlu yn dal ar drywydd y difrod a gafwyd I'r Neuadd. Mae'r gost yn llai na'r hyn a feddyliwyd gan I York Carpets ddod I'r Neuadd Ddydd Sul I gyweieio'r llawr am bris da. Fodd bynnag roedd yn rhaid cael 'cistern' newydd I'r toiled. Rydym yn aros am bris I gyweirio'r ffenest.

HEN GARROG A LLIDIART Y PARC

Dyma ddarn olaf traethawd y 50au, a'r pwnc y Mis hwn yw tyfiant y Pentref. Rhwng 1895 a 1905 fe godwyd nifer o adeiladau . Adeiladwyd Capel y Bedyddwyr, gan symud o Tancapel (Swan Cottages). Yn 1898 fe adeiladwyd Disgwylfa a Gorffwysfa – Disgwylfa y drws nesaf I'r Capel Methodist – ar gyfer y Gweinidog a Gorffwysfa ar gyfer Mr Edward Jones, Siop y Parc. Cost y ddau oedd £635. Yna fe adeiladwyd Pengwern, Fronheulog, Llanerch, Minffordd a Trem Afon, Cadogan, Crammond a'r Swyddfa Bost, a oedd arfer a bod yn Dewis Dyddyn ac yn gwerthu papurau newydd. Yn hwyrach ymlaen fe adeiladwyd Ty Coch (Berwyn Lodge) – tua 1904/5 a Gwylfa Terrace, Capel Beulah a Tai Teg.

NEWYDDION PONT CARROG

Mae'r Cyngor wedi derbyn amcangyfrif ar gyfer adnewyddu'r bont ac yn trafod y mater gyda CADW oherwydd pwysigrwydd hanesyddol y bont. Mae'n debyg y bydd y bont ar gau am ychydig o ddyddiau I gerbydau ond nid I gerdwyr, tra mae'r gwaith yn cael ei wneud. Dylid rhoi arwyddion wrth y Stesion ac wrth y Neuadd fel bo cerbydau yn gallu troi. Ni allwn ddisgwyl I yrrwyr sydd wedi cyrraedd y bont gan nad oes arwyddion priodol I yrru'n ol yr holl ffordd. A beth am leihau'r cyfyngiad I 7.5 tunell gvw? A symud yr arwyddion hyll oddiar bont hardd sy'n cael ei ffotograffio a'I pheintio'n gyson.

AIL DDYFODIAD CRICED

Yn y gorffennol roedd gan Carrog a Llidiart y Parc dim criced o dan gaptiniaeth Dennis Wyn Jones. Er fod y tim hwnnw wedi chwalu mae diddordeb mewn gem gyda chwaraewyr o dim Corwen. Mae hyn yn cynnwys chwaraewyr o bob oedran – bu Michael Jones, 58 o Garrog yn batio yng Nghorwen yn ddiweddar!. Nid yw'r sgor wedi ei gadarnhau eto ond mae pawb yn y Grouse a oedd yn amau ei dalentau wedi talu eu harian ar gyfer Hope House.

GROUSE INN

Proprietor: Sarah Kenrick

The Grouse Inn, Carrog, Corwen LL21 5AT
Tel: 01490 430272

- Beer Garden overlooking River Dee
- 2 minutes walk from the Train Station
- Open All Day for Food and Drinks

WELIS A BERFA

Rywdro tua diwedd Mis Chwefror cefais fy neffro gan swm a roddodd gryndod I mi. Roedd oen cyntaf 2004 Llan Farm wedi cael ei eni, a'I fam wedi ei wrthod gan ddych-welyd yn ddi-niwed at y praid. Fe ddwedais bader sydyn gan geisio adunaid rhyngddynt, ond dal I'w wrthod a wna'r fam wythnos yn ddiweddarach.

Tra ynghanol yr wyna fe benderfynnodd rhywun o Wasanaeth y Cyngor alw heibio I wneud cyfrif swyddogol o'r defaid. Er ei fod yn ddynd ffeind a fod y defaid I gyd yno roedd yn gur pen y gallwn fod wedi gwneud hebdo.

Ar y cyfan fe aeth yr wyna yn iawn. Diolch I'r rhai a ffoniodd I adael I mi wybod am oen mewn trafferth – rwyf yn gwerthfawrogi eich cymorth. Gyda'r domen daily n mynd yn agosach at y ffordd bob dydd, fe benderfynnais ei chwalu ar y caeau, ond cefais dipyn o starch. Daeth Arwel Bach I lawr, ac ar ol dyddiau o geisio osgoi'r glaw fe lwyddodd I chwalu'r cyfan.

Gan fod y tywydd yn sych, penderfynnais droi teirw allan ar Y Ddol, wrth y Grouse. Dau ddiwrnod yn ddiweddarach, death y glaw mawr ac fe drodd y tywydd yn oer, er gwaethaf golygon y tywydd.

Mae'n debyg fod digon o wair nes I bopeth adael y siediau, ond y cwestiwn mawr yw – pryd fydd hynny?

Mae'r gwartheg ar fin dod a lloi dros yr wythnosau nesaf, felly diffyg cwsg unwaith eto. Os oes unrhyw un sy'n cael trafferth cysgu yng Ngharrog ac yn mwynhau tipyn o 'Tug of War' cysylltwch a mi.

Gareth Llan.

Y GORNEL ARIANNOL

Blwyddyn dreth newydd, a chyfrif cynilo unigol newydd (ISA). Ond sut mae dewis yr un iawn?

Gall hyn fod yn ddewisiad anodd gan fod cymaint o rai gwahanol. Rydym wedi nodi pwyntiau I'ch helpu wrth wneud penderfyniad.

1.PERFFORMIAD GORFFENNOL – Nid yw perfformiad yn y gorffennol o angenrheidrwydd yn golygu perfformiad da yn y dyfodol. Er enghraifft, ar ddechrau 2000 fe fuddsoddodd nifer o bobl arian gyda cwmnïau technoleg a oedd wedi enill swm mawr dros y dair blynedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd cwmp mawr yn 2000. Ond peidiwch ac anwybyddu perfformiad gorffennol yn gyfan gwbl.

2.PERYGLON – Mae rhai cronfaoedd yn fwy anwadl nag eraill, mewn gair meant yn cario mwy o berygl o golli arian. Wrth I chi drafod buddsoddi gyda Cyngorydd Ariannol gwnewch yn siwr eich body n hapus gyda lefel y peryglon.

3.CWESTIYNNAU I'W GOFYN – Gofynnwch I'r cynghorydd os yw rheolwr y cwmni yn buddsoddi ei arian ei hyn gyda'r cwmni. Nid yw hyn yn sicrhau perfformiad da ond fe all sicrhau ymrwymiad.

4.PORTFFOLIO – Dylai buddsoddwyr gysidro gwneud portfolio gyda nifer o gronfaoedd sy'n cynnwys cymysgedd o feddiannau e.e Rhwymau, ac eiddo. Mae'n gwneud synnwyr I rhannu'r arian fel nad ydych yn debygol o golli swm mawr ar unwaith.

If you have any questions e-mail us at office@hlfinancial-ifa.co.uk phone 01978 860897 or send your letters to the address below.

Article supplied by H.L. Financial Consultants. Unit 9, The Malthouse, Regent Street, Llangollen, LL20 8HS.

H.L. Financial consultants is an appointed representative of Berkeley Independent Advisers Ltd. Which is authorised and regulated by the Financial Services Authority

H.L. FINANCIAL CONSULTANTS
Independent Financial Advisers
Financial Planning for the Private individual & corporate sector on:
Pensions Investments Mortgages*
Life Assurance
Unit 9, The Malthouse, Regent Street, Llangollen, LL20 8HS.
Tel: 01978 860897. Fax: 01978 869548.
e-mail: office@hlfinancial-ifa.co.uk
Partners Robert P Hopkins and Eric Lea
H.L. Financial Consultants is an appointed representative of Berkeley Independent Advisers Ltd, which is authorised and regulated by the Financial Services Authority
*YOUR HOME IS AT RISK IF YOU DO NOT KEEP UP REPAYMENTS ON A MORTGAGE OR OTHER LOANS SECURED ON IT
Not all the above products/services are regulated by the FSA.

EFEILLIO

Ar benwythnos Mai 14/16eg bydd Carrog a Llidiart y Parc yn efeillio'n swyddogol gyda Plouye yn Llydaw. Bydd 10 o drigolion Plouye yn cynnwys y maer, M. le Guern yn aros yn y pentref dros y penwythnos. Mae Plouye yn gymuned ddwyieithog (Ffreneg/Llydaweg) sydd yn debyg o ran maint I garrog/Parc a chanddi Eglwys ac Ysgol a tair tafarn (un ohonynt yn siop hefyd !!!) Bydd y penwythnos yn gyfle I ni gymharu diwylliant a'n ffordd o fyw. Dyma amlinelliad o weithgareddau'r penwythnos:

Gwener Mai 14eg – Derbyniad swyddogol yn y Neuadd am 2 o'r gloch. Bydd croeso I holl drigolion Carrog a'u ffrindiau. Bydd adloniant gan blant yr ysgol a bydd papurau swyddogol yr efeillio yn cael eu harwyddo yn Gymraeg, Llydaweg, Saesneg a Ffrangeg., gan W.R.Webb a Maer Plouye.

Bydd Cor Meibion Glyndwr a delynores yn gyfrifol am yr adloniant o 6.30 y.h a bydd bar a bwffet ar gael gan y Grouse.

Ar Ddydd Sadwrn 15fed o Fai bydd ein ymwelwyr yn ymuno a ni am 'Hog Roast' a Thonic gyda cherddoriaeth gan ddeuawd lleol adnabyddus, Tonic, a'r mochyn gan Dai Butch. Yn ogystal a hyn bydd ein ymwelwyr yn mynd ar deithiau yn cynnwys taith I Langollen (gan gwrteisi Rheilffordd Llangollen) ac ymweliad I Ewephoria a fydd yn ddiddorol gan fod Plouye mewn ardal lle mae ffensys a defaid yn bethau estron.




YSGOL CARROG

Mae 'Carrog Crafters' wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer yr arddangosfa ar nos Wener Mai 21ain. Mae croeso i bawb i'r Neuadd am 7 o'r gloch gyda lluniaeth ysgafn. Cafodd Eleanor Sansom gyntaf yn yr Eisteddfod yn Llanelwy, a bydd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod yn Sir Fon. Roedd balwnau a baneri yn hedfan i ddathlu penblwydd arbennig Mrs Jones.

Mae'r Ysgol wedi croesawu 5 o blant rhan amser 3 oed. Mae Francis, Megan, Osian, Sam, Maddie yn setlo'n dda. Pob lwc i Molly Bourne, Charlotte Roberts a Sioned Roberts sydd wedi ymuno a Band Chwythbrennau Ieuentid yng Nghorwen.

NEUADD

Mae Ystad Rhagatt wedi cyflwyno piano Yamaha I'r Neuadd sydd yn ychwanegiad gwerthfawr. Yn y cyfarfod diwethaf fe gytunwyd I ofyn I Mr Brynle Hughes I wneud tipyn o fan adgyweirio I do'r Neuadd ac I adnewyddu'r gwteri wrth gefn y Neuadd. Mae'r difrod a gafwyd ar ol y fandaliaeth wedi ei drwsio ond hyd yn hyd nid oes unrhyw newydd am y rhai a achosodd y difrod er mwyn I ni allu gofyn am iawndal. Byddwn yn tynnu rhif cyntaf y Clwb 100 y Mis nesaf.



ETHOLIADAU'R CYNGOR A'R GYMUNED.

Ar Fehefin 10fed bydd etholiadau ar gyfer aelodau Sirol Cyngor a Chymuned Ewropiaidd. Nid yw yn bolisi genym I basio barn boliticaidd ond mae gofyn I enau fod I mewn erbyn Dydd Iau 13eg o Fai. Rydym yn gofyn fodd bynnag I'r ymgeiswyr adael I ni fel cymdeithas wybod eu bwriad, a'r hyn sydd ganddynt ar y gweill I Garrog/Parc os ydynt yn cael eu hetholi. Rydym hefyd yn cynnwys y rhai nad ydynt yn byw yn y gymuned os sydd am ein cynrychioli. Byddwn yn printio'r sylwadau hyn yn y rhifyn nesaf er mwyn rhoi cymorth I chi fel pleidleiswyr I benderfynnu. Rydym wedi son am nifer o achosion pentrefol yn ystod y misoedd diwethaf a bydd yn ddiddorol gweld pwy fydd yn fodlon wynebu'r problemau hyn. Bydd y Cyngorydd Rhys Webb yn ymddeoli ar ol blynyddoedd maith o wasanaeth I'r Llywodraeth Lleol – Mae wedi bod yn ffyddlon I'r gymuned ac I'r Cyngor I leol fel Cyngorydd Annibynnol am 46 mlynedd, yn ogystal a bod yn Gadeirydd Llywodraethwr yr ysgol ac yn aelod o bwyllgorau di-ri.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau I Emma Simpson o Llidiart y Parc ar enedigaeth merch fach, Caitlin, a bwysodd 6 pwys 6 owns ar 10fed o Ebrill.



Letters

Siop Carrog

Annwyl Olygydd,

Rwyf yn gofidio fod Siop Carrog wedi cau, a'r effaith y mae hyn yn mynd I gael ar y gymuned, yn ogystal a'r argraff y bydd yn ei roi I ymwelwyr. Tair mlynedd yn ol roedd gan Garrog Siop a swyddfa Bost a oedd yn ffynnu a does dim rheswm pam na all hyn fodoli unwaith eto yn y dwylo iawn. Mae hanfodol I unrhyw fentr fedru cynnig gwasanaeth na geir mewn archfarchnadoedd. Mae digon o sgop yma I gynnig cynnyrch lleol I bobl y pentref ac I ymwelwyr yn dymhorol. Mae gan Jane a minnau diddordeb mewn agor Siop Gymunedol, sydd yn cael ei redeg gan bobl lleol yn wirfoddol ac yn cynnig mwy na chynnyrch – ond lle I fobl gyfarfod, ffotogopio, I 'shredio' llythyrau wast y.b yn ogystal a gwerthu bwyd fres ac eitemau hanfodol (glo, mat-sys y.b) Rydym ar ddeall y bydd Siop Carrog ar gael o Fis Gorffennaf ymlaen ac felly mae gofyn dechrau cynllunio nawr. Cysylltwch a Jane ar 01678 520400 os ydych am roi cymorth I ni gael Siop Carrog ar agor unwaith eto.

John Legg
Berwyn House.

Dear Editor,

The evolution of language.

During the last few years I have noticed many changes to the English language. Some essential, and some, I feel, unnecessary.

For instance, some people visit an Optometrist when their eyes need attention. I still see an Optician. When their feet give them trouble, most people visit a chiropodist, not a podiatrist. A dentist is the person to see when you have toothache, not a dental surgeon. And when did Solicitors become Lawyers.

When the time comes for me to be laid out, I would like it to be carried out by an Undertaker, not a Funeral Director.

Some years ago, Grass was something to play games on, a Joint was part of a Sunday meal. Gay meant happy and only astronauts were ever spaced out.

Has anybody else any examples of how the English language is changing, and what are their views?

Dai Dinthewool.
Llidiart-y-Parc
Corwen

DYDDIADUR

1af – 15fed o Fai – Arddangosiad o ddarluniau Ed Fisher yn Llyfrgell Llangollen.

14eg o Fai – Derbyniad Efeillio gyda Cor Meibion Glyndwr I ddilyn – yn rhad ac am ddim.

15fed o Fai – ‘Hog Roast’ gyda adloniant gan Tonic. – Tocynnau £5 yn y Neuadd.

Eglwys Carrog – Noson Goffi – Iau, 27ain o Fai yn GreenAcres. Mwy o fanylion ar bosteri yn nes at yr amser.

Gwasanaethau Eglwys ym Mis Mai

2il – 9.30 – Cymun

9fed – 11.00 - Gweddi Foreuol

16eg - 11.00 – Cymun

23ain – 11.00 – Gweddi Foreuol

27ain – Noson Goffi – 7.00

30ain – 9.30 – Cymun

GLEBE LAND

The following was received from the Representative Body of the Church in Wales in response to the observations submitted concerning the Glebe land:

“As discussed, the Property Sub-committee fully considered the resolution passed at the meeting of the Parochial Church Council on 22nd February 2004.

The Committee decided that, in line with its obligation to secure the best terms reasonably obtainable on land it sells or leases, a sale of the site should be sought once outline planning permission has been obtained. The committee had a lot of sympathy with the parish's wish that, if a sale were to go ahead, the site should be developed to provide affordable/social housing. However, the committee felt it was the responsibility of the Local Planning Authority to specify any conditions that should apply to any planning approval.

Having said this, subject to a successful planning application, our agents will be asked to contact all Housing Associations active in the area. This will ensure they are all made aware of the availability of the site, even though they will have to pay a full market price if they wish to acquire the land, which will also have to be openly marketed.

I have today written to our agents to ask them to apply for outline planning consent for the land in question and no doubt you will hear more locally when this application is due to be considered”

Carrog Church was asked to respond to the Property Department of the Representative Body of the Church in Wales and canvassed, through a public meeting, local opinion prior to making a response. It is now up to individuals, who may feel strongly about the situation, to make their own responses.